**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 16 Chwefror 2016**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Y Cynghorydd Meirick Davies - Personol - Eitem 9 ar y Rhaglen – yn rhentu garej gan y cyngor<br><br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - Personol – Eitemau 5 a 6 ar y Rhaglen - Llywodraethwr Ysgol Pen Barras |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) yn cymeradwyo dyrannu £4.8m wrth gefn i gefnogi cynlluniau Glasdir ac Ysgol Carreg Emlyn o fewn y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, i'w ariannu drwy ryddhau cyllidebau refeniw o fewn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion;*<br><br>*(c) cymeradwyo dileu dyledion sy'n ddyledus gan The Scala Company Limited* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Prestatyn cyfanswm o £140k, a*<br><br>*(d) cymeradwyo dyraniad o £1.5m o'r adolygiad o ddarpariaethau'r fantolen a'r argyfyngau yn y flwyddyn i'r Cynllun Cyfalaf.* |
| **6** | CYNNIG CAU YSGOL LLANBEDR DC AR 31 AWST 2016 GYDA'R DISGYBLION PRESENNOL YN TROSGLWYDDO I YSGOL BORTHYN, RHUTHUN, YN DIBYNNU AR DDEWIS Y RHIENI | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiad, ac*<br><br>*(b) yn amodol ar ystyried yr uchod, bod y Cabinet yn cymeradwyo'r gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2016 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Borthyn, Rhuthun, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.* |
| **7** | Y DIWEDDARAF AM BROSIECT DATBLYGU GLAN Y MÔR Y RHYL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) rhoi cymeradwyaeth i fynd i ymuno mewn Cytundeb Adfywio Cyffredinol ar sail y modelau ariannu a nodir ynddynt; gyda phob elfen o'r adfywio cael ei gyflwyno'n raddol ac yn amodol ar gymeradwyaeth bellach (p'un ai gan y Cabinet neu drwy Benderfyniad Dirprwyedig dibynnu ar werth) i fwrw ymlaen, a*<br><br>*(b) cymeradwyo sefydlu cyllideb prosiect a ariennir drwy ailddyrannu adnoddau corfforaethol presennol.* |
| **8** | ARGYMHELLION Y GRŴP | ***PENDERFYNWYD** bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad i'w* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | BUDDSODDI STRATEGOL | *gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf 2016/17 yn cael ei gefnogi a'i argymell i'r Cyngor llawn.* |
| **9** | GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2016/17 | ***PENDERFYNWYD:***<br><br>*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2016/17 (Atodiad 1) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2);*<br><br>*(b) cynyddu rhenti anheddau Cyngor yn unol â chanllawiau Polisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015 (£77.74 yr wythnos ar gyfartaledd) o ddydd Llun 4 Ebrill 2016; a*<br><br>*(c) cynyddu rhenti ar gyfer garejis y Cyngor yn unol â'r cynnydd mewn rhenti am anheddau Cyngor i £6.68 ar gyfer Tenantiaid y Cyngor a £8.02 yr wythnos ar gyfer Tenantiaid eraill.* |
| **10** | DIWEDDARIAD AM ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo:-*<br><br>*(a) Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a*<br><br>*(b) defnyddio ymagwedd ranbarthol at chwilio am safleoedd i gwrdd ag unrhyw ddarpariaeth sydd eu hangen yn y dyfodol.* |
| **11** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 16 Chwefror 2016**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **12** | DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL | Cafodd yr eitem hon ei thynnu’n ôl. |
| **13** | DYFARNU CONTRACT GWASANAETH BWS LLEOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu'r contract gwasanaeth bws lleol i'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd fel y nodwyd yn yr adroddiad.* |